

CYNWRIG HIR, o Edeirnion (1093).

Enw: Cynwrig Hir

Rhyw: Gwryw

Maes gweithgaredd: Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu

Awdur: David Myrddin Lloyd

Yn ' Hanes Gruffydd ap Cynan ' adroddir amdano'n dyfod i Gaer lle'r oedd **Gruffydd** yn garcharor Hu Iarll ers deuddeng mlynedd, gweld y tywysog mewn gefynnau, ei gario i ffwrdd tra oedd y bwrdeisiaid wrth eu bwyd, ei gadw'n ddirgel tros dro yn ei dŷ ei hun, ac yna ei ddwyn yn llechwraidd i Fôn. Os gwir yr hanes, yr oedd yn weithred dyngedfennol yn hanes Cymru yn wyneb pwysigrwydd gyrfa **Gruffydd** a'i ddisgynyddion ar ôl hyn. Nid oedd Arthur Jones a **Syr J. E. Lloyd** yn unfarn ynglŷn â hyd carchariad **Gruffydd**, ac felly ynglŷn â blwyddyn ymweliad Cynwrig â Chaer, ac ni roddai **Syr J. E. Lloyd** 'ymddiriedaeth hollol' yn yr hanes, ond y mae ' Hanes Gruffydd ap Cynan ' yn dystiolaeth gynnar.

Awdur

David Myrddin Lloyd, (1909 - 1981)

Ffynonellau

History of Gruffydd ap Cynan (1054â€”1137) (1910) (gol. Arthur Jones), 1910, 133-4

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest*(London 1911), ii, 404

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Cynwrig Hir

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q18535540

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrefydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Lloyd, D. M., (1953). CYNWRIG HIR, o Edeirnion (1093).. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-CYNW-HIR-1093>

Gruffydd

Preifatrwydd a Chwci
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government